Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae arweinwyr diwyd yn sicrhau ethos cynhwysol a diwylliant cadarnhaol ar draws yr ysgol, sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau disgyblion. Mae'r weledigaeth ddeallus hon, sy'n cefnogi arferion gwella'r ysgol, yn cyfrannu at ymddygiad da a pharodrwydd i ddysgu ymysg disgyblion. Mae cymhelliant a pharodrwydd arweinwyr i gryfhau gweithdrefnau gwella'r ysgol, trwy werthusiadau rheolaidd a thrylwyr, yn arwain at systemau effeithiol i ddatblygu'r ysgol ymhellach.

Mae arweinwyr yn adolygu perfformiad staff yn rheolaidd ac mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarn ar les a dysgu disgyblion. Mae llywodraethwyr yn herio a chefnogi arweinwyr yn ystyriol, ac yn canolbwyntio ar wella'r addysgu a dysgu trwy gylch monitro effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd dysgu cynhwysol a phriodol y tu mewn i'r ysgol, er nad yw'r ddarpariaeth yn yr awyr agored wedi'i datblygu'n ddigon da i gefnogi disgyblion i ymgolli'n llwyr yn eu dysgu.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm eang a chytbwys, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu holl fedrau'r disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. O ganlyniad, mae'r cynnydd ym medrau llythrennedd disgyblion, yn y Gymraeg a'r Saesneg, a medrau rhifedd a digidol disgyblion, yn datblygu'n gadarn.

Ar y cyfan, mae rhediad sesiynau addysgu yn symud ar gyflymdra sy'n cefnogi'r dysgu. Er hyn, mewn ychydig o wersi, nid yw ansawdd addysgu'r athrawon a'r her a roddant i ddisgyblion yn gyson ar draws yr ysgol. Mae'r adborth a ddarperir gan athrawon i ddisgyblion i wella'u dysgu yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r adborth hwn bob amser yn nodi'r camau nesaf yn nysgu disgyblion unigol yn gywir.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith clòs ac ymddiriedus. Maent yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau ac awgrymiadau yn synhwyrol, sy'n datblygu eu teyrngarwch a pharch at bobl eraill yn effeithiol. Mae disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol gwerthfawr, sy'n cefnogi eu hymwybyddiaeth a'u gwerthfawrogiad diwylliannol yn bwrpasol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Herio'r holl ddisgyblion trwy gysoni'r arferion addysgu ar draws yr ysgol

A2 Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn nodi'n gywir y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion

A3 Gwella ansawdd a darpariaeth y profiadau dysgu yn yr awyr agored

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/05/2025